

GWERTHUSIAD O FESURAU A GYFLWYNWYD MEWN CYSYLLTIAD AG UWCHGYNADLEDDAU ECONOMAIDD

Crynodeb

Mae amryw o gamau gweithredu wedi'u cymryd a chynigir gwerthuso effaith mesurau a aeth ymlaen mewn cysylltiad â'r Uwchgynadleddau Economaidd a gynhaliwyd rhwng 2008 a 2010. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnydd a gwneud sylwadau am gynigion ar gyfer y gwerthusiad cyffredinol.

Y Materion

1. Mae amryw o elfennau wedi bod yn rhan o'r gwerthusiad o broses yr Uwchgynadleddau. Mae rhai o'r rhain yn dal i fynd ymlaen, ac nid yw'r elfen olaf, sef y gwerthusiad cyffredinol o ganlyniadau, wedi dechrau eto.

Proses yr Uwchgynadleddau a chyflawni mentrau

2. Gwerthuswyd proses yr Uwchgynadleddau drwy ofyn am farn y rhai a oedd yn bresennol ac mae'r farn hon wedi'i hadlewyrchu yn y cynigion a ddatblygwyd ar gyfer Cyngor Adnewyddu'r Economi.
3. Yn yr Uwchgynhadledd Economaidd derfynol ym mis Mai cyflwynwyd papur a oedd yn rhoi cipolwg ar gynnydd ar y pryd ar wahanol fesurau'r Uwchgynadleddau. Mae copi o'r papur hwnnw wedi'i atodi i roi gwybodaeth gefndir.

Gwerthuso'r prif fesurau

4. Mae'r ddwy fenter newydd fwyaf (ReAct a ProAct) sy'n mynd ymlaen dan nawdd yr Uwchgynadleddau'n destun i werthusiadau ar wahân sydd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar neu'n agos at eu cwblhau.
5. Mewn cysylltiad â ReAct, mae'r prif gasgliadau wedi cynnwys y canlynol:
 - Ystyrir yn gyffredinol fod y rhaglen yn llwyddiannus iawn, a'i bod yn cynnig cymorth sy'n berthnasol i'r unigolyn a'r economi mewn cyfnod a ystyrir gan lawer yn un anodd i unigolion;
 - Mae'n ymddangos bod nodau ac amcanion y rhaglen wedi'u cyflawni a'u bod, mewn amgylchedd economaidd ansicr a chyfnewidiol, yn dal yn ddilys ar gyfer rhaglen olynol;
 - Mae'n ymddangos bod canlyniadau a nodwyd yn y gwerthusiad yn hybu amcanion ehangach y Cynulliad, fel cyrraedd y gyfradd darged ar gyfer cyflogaeth yn 'Cymru'n Un' o 80%;
 - Mae'r gwerthusiad yn ystyried amryw o effeithiau 'caled' a 'meddal' o ganlyniad i ReAct. Ceir heriau sylweddol wrth fesur y sefyllfa gyffredinol, ond mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod buddion 'caled' (e.e. pobl sydd wedi'u diswyddo'n cael swyddi newydd yn

gyflymach, neu swyddi gwell, oherwydd ReAct) yn debygol o fod yn unol at ei gilydd â'r gost y buddiolwr (tua £2,000), a bod ystod eang o fuddion 'meddal' yn codi'n ogystal.

6. Mae gwerthusiad llawn o ProAct yn mynd ymlaen ac yn agos at ei gwblhau. Mae trafodaethau â'r contractwyr wedi awgrymu bod y canlyniadau'n galonogol iawn. Yr arwyddion cynnar yw bod y cymorth a roddwyd wedi cael amryw o effeithiau llesol ymysg cwmnïau sy'n cymryd rhan a'i fod yn cyflawni prif amcanion gwreiddiol y cynllun.

Gwerthusiad cyffredinol

7. Yn ogystal â gwerthuso elfennau unigol y rhaglen, mae hefyd yn bwysig ystyried yr effaith gyfunol, gan ganolbwyntio ar ofyn i ba raddau y mae canlyniadau'n wahanol i'r rheini a fyddai wedi codi heb y rhaglen.
8. Mae gwerthusiad cyffredinol o'r fath yn cynnig her gan ei bod yn anodd pennu'r hyn sy'n wrthffeithiol. Bydd y dull gweithredu a ddefnyddir yn cyfuno methodolegau "o'r brig i lawr" ac "o'r gwaelod o fyny". Bydd y gyntaf yn y bôn yn ceisio asesu'r effaith debygol ar ddangosyddion economaidd lefel uchel (yn cynnwys cyflogaeth a CMC) drwy gyfuniad o fodelu a chymariaethau â rhannau eraill o'r DU. Bydd yr olaf yn ystyried yr effeithiau a gofnodwyd wrth fonitro prosiectau penodol, yn eu cyfuno a'u haddasu i ystyried difuddiant, dadleoli, ac effeithiau lluosydd.
9. Rheolir y gwerthusiad fel rhan o raglen ymchwil economaidd y Panel Cyngorol ar Ymchwil Economaidd, a chaiff ei gyflawni ar sail annibynnol a'i adolygu gan gymheiriaid.
10. Ni fydd yn bosibl cyflawni'r gwaith hwn nes bydd ystadegau swyddogol ar gael ar gyfer cyfnod y dirwasgiad ar ei hyd. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd yn fwyaf priodol ceisio penodi contractwyr i gyflawni'r gwerthusiad ar ddechrau 2011-12.
11. Oherwydd graddfa a natur gymhleth y rhaglenni a phrosiectau sy'n rhan o waith yr Uwchgynhadledd, y bwriad yw rhannu'r astudiaeth ymchwil hon yn ddau gam: yn gyntaf, asesiad o argaeledd y data a dichonoldeb cynnal gwerthusiad llawn ac, yn ail, cynnal y gwerthusiad llawn (os credir bod hynny'n ddichonol a bod disgwyl iddo roi gwerth am arian).
12. Derbynnir bod y gwerthusiad hwn yn cynnig nifer o heriau, yn cynnwys natur eang ac amrywiol y gweithgareddau, asesu cyfraniadau'r Uwchgynadledau (h.y. mesur yr effeithiau ychwanegol o gamau gweithredu'r Uwchgynadledau a'r rhai y gellir eu priodoli iddynt), a chasglu data priodol a allai fod yn ddigon hyblyg i ddangos effeithiau gwirioneddol o weithgareddau sy'n wahanol iawn o ran graddfeydd a nodweddion ac yn digwydd dros gyfnodau gwahanol.

13. Mae prif amcanion y cam cyntaf yn debygol o gynnwys:

- adolygu nodau a chwmpas yr ymyriadau, gan gynnwys newidiadau yn y rhaglenni presennol, eu sail/seiliau rhesymegol, a darparu disgrifiad o weithgareddau, a'r tueddiadau mewn gweithgareddau, a gynhaliwyd hyd yn hyn;
- asesu cwmpas ac addasrwydd y data a gaiff eu casglu ar hyn o bryd i'w defnyddio mewn gwerthusiad economaidd, gan gynnwys ystyriaeth i faterion fel ansawdd y data sydd ar gael ac i ba raddau y gallai data fod ar goll;
- ystyried lle y byddai angen casglu data ychwanegol gan roi asesiad o opsiynau ar gyfer methodolegau priodol a chosteffeithiol i fodloni anghenion o'r fath am gasglu gwybodaeth, yn cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol. Byddai hyn hefyd yn gallu cynnwys, er enghraifft, y defnydd o arolygon a chyfweliadau peilot i roi prawf ar ymarferoldeb methodolegau gwahanol ar gyfer casglu data;
- ystyried y data sydd eu hangen (a methodolegau casglu data) i gwrdd â'r gofynion ar gyfer gwerthusiadau economaidd sy'n dilyn yr arferion gorau wrth amcangyfrif yr effeithiau economaidd clir – gan ystyried materion perthnasol fel ychwanegedd, dadleoli ac amnewid, a rhoi sylw hefyd i agweddau fel y posibilrwydd o gyfrif dwbl (os yw'n berthnasol) a datblygu cyd-destunau gwrthffeithiol addas wrth asesu'r effeithiau economaidd;
- datblygu fframwaith a methodoleg gwerthuso ystyrlon ar gyfer cynnal y gwerthusiad economaidd yng nghanam 2; gan roi sylw i'r materion uchod, gyda strategaeth gydlynol a chosteffeithiol ar gyfer casglu data a disgrifio'r dull(iau) y gellid eu defnyddio wrth ddadansoddi effeithiau'r ymyriadau ar yr economi. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y defnydd o gysylltiadau data micro a / neu efelychiadau model;
- pennu materion eraill sy'n berthnasol wrth gynnal gwerthusiad economaidd llawn ac asesu gwerth am arian.

14. Gan gymryd y bydd penderfyniad i fynd ymlaen at werthusiad llawn, mae hyn yn debygol o gynnwys y materion canlynol:

- casglu unrhyw ddata ychwanegol sy'n ofynnol – wedi'i drefnu i edrych ar y gwahaniaethau posibl yn amseriad mathau o ymddygiad ac effeithiau sy'n codi o'r ymyriadau;
- datblygu llinell sylfaen economaidd i asesu'r effeithiau economaidd cyffredinol;
- amcangyfrif effeithiau economaidd clir yr ymyriadau, gan ystyried ychwanegedd, difuddiant, dadleoli, amnewid, y gwrthffeithiol, a rhoi sylw i faterion cyfrif dwbl (os ydynt yn berthnasol), pennu'r effeithiau y gellir eu priodoli i'r ymyriadau penodol yn ystod y dirwasgiad;
- asesu pa mor effeithlon yw'r cyflenwi a'r targedu ar yr ymyriadau perthnasol;
- pennu'r gwerth am arian o'r gweithgareddau ac ymyriadau penodol, gan feincnodi'r allbynnau a'r canlyniadau, os yw'n briodol, yn erbyn ymyriadau tebyg mewn lleoedd eraill;

- ystyried i ba raddau y mae'r nodau ac amcanion gwreiddiol wedi cael / yn cael eu cyflawni, a'r gwersi a ddysgwyd o ran beth yw'r elfennau mwyaf effeithiol yn yr ymyriadau;
- edrych ar faterion perthnasol eraill sy'n codi o'r asesiad cam 1.

Argymhellion

15. Y dylai'r Cyngor nodi'r cynnydd a wnaed a gwneud sylwadau am y cynigion ar gyfer y gwerthusiad cyffredinol

ATODIAD: UWCHGYNADLEDDAU ECONOMAIDD CYMRU – ADOLYGIAD O GYNNYDD

Cyd-destun

Roedd yr Uwchgynhadledd gyntaf i Gymru gyfan yn gyfle i'r holl bartneriaid glywed gyda'i gilydd am yr anawsterau y mae Cymru'n eu hwynebu. Cytunwyd y byddai'r Uwchgynhadledd yn llunio rhaglen ymateb lawn i helpu busnesau ac unigolion i ymdopi â'r dirywiad economaidd. Fel rhan o hyn roedd yr Uwchgynadledau'n cael papur diweddar rheolaidd a oedd yn trafod manylion y cynnydd ar bob un o'r rhaglenni hyn.

Fel cam cyntaf tuag at ddechrau gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglenni hyn a'r Uwchgynadledau, mae'r papur sydd wedi'i atodi'n disgrifio'r mesurau a gymerwyd a beth a wnaethom, ynghyd â manylion ynghylch sut y gallai'r Uwchgynhadledd ystyried comisiynu astudiaeth economaidd dymor hwy.

Cyflwyniad – Sefydlu'r Uwchgynadledau

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud.

Sefydlodd Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad gyfres o Uwchgynadledau Economaidd i uno Llywodraeth, busnes a'r undebau llafur mewn ymateb penderfynol i drechu'r anawsterau y byddai Cymru ac economi Cymru'n eu hwynebu yn ystod cyfnod y dirwasgiad.

Beth wnaethom

Roedd sefydlu'r Uwchgynadleddau Economaidd yn rhoi Cymru ar y blaen ledled y DU o ran ei hymateb i'r dirwasgiad. Mae deg Uwchgynhadledd wedi bod hyd yn hyn, ac wedi'u cynnal mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru. Er nad oes unrhyw werthusiad ffurfiol o rôl yr Uwchgynadleddau wedi'i gomisiynu, mae'r rhan helaethaf o'r adborth yr ydym wedi'i gael gan y rhai a fu'n bresennol (a drafodir mewn papur ar wahân) wedi bod yn gadarnhaol. Rhoddwyd sylw sylweddol i'r Uwchgynadleddau yn y cyfryngau ac roeddent yn fodd i sicrhau pobl Cymru bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, busnesau a phartneriaid Cymdeithasol eraill yn barod i ymateb yn gorfforaethol mewn cyfnod anodd. Yn ogystal â hynny, un o'r manteision a gododd o'r Uwchgynadleddau oedd eu bod yn dangos math effeithiol iawn o weithio mewn partneriaeth ac mae'r hyn a ddysgwyd o'r profiad hwn yn cyfrannu at ddatblygu partneriaeth gymdeithasol yn y dyfodol.

Mynd i'r Afael â'r Heriau

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Roedd yr Uwchgynhadledd gyntaf i Gymru gyfan yn gyfle i'r holl bartneriaid glywed gyda'i gilydd am yr anawsterau y mae Cymru'n eu hwynebu. Cytunwyd y byddai'r Uwchgynhadledd yn llunio rhaglen ymateb lawn i helpu busnesau ac unigolion i ymdopi â'r dirywiad economaidd. Gweithgareddau i'w dal dan sylw:-

- Cydweithio â Llywodraeth y DU i weithredu mesurau ledled y DU
- Gwellu gwybodaeth rhwng busnesau a llywodraeth
- Creu fforwm bancio penodol i helpu i gynghori busnesau
- Gwellu prosesau caffael a chyflwyno taliadau cyflymach i gyflenwyr
- Adolygu ein cymorth i Fusnesau
- Cynorthwyo busnesau a gweithwyr sy'n wynebu'r bygythiad o ddiswyddo

- Sicrhau bod Cyllid Cydgyfeirio'r UE yn cael yr effaith fwyaf posibl
- Ystyried rhaglenni cyfalaf er mwyn cynnig cyfleoedd ym maes adeiladu'n gynharach

Beth wnaethom

Cafodd yr Uwchgynhadledd ddiweddariadau cyson am y sefyllfa economaidd ac ariannol yng Nghymru a gwrandawodd ar fusnesau rheng flaen a chynrychiolwyr Undebau Llafur ynghylch yr heriau a allai wynebu'r economi gan gynnwys y rhagolygon ar gyfer twristiaeth, a'r rhagolygon i'r sectorau ariannol, gweithgynhyrchu, diwydiannol a busnes a'r Trydydd sector. Rhoddodd ystyriaeth hefyd i'r camau gweithredu a gynigiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:-

- Caffael
- Seilwaith
- Tai
- Effeithlonrwydd Ynni
- Sgiliau a Hyfforddiant
- Cyllido
- Ardrethi Busnes ac Eiddo

Ers dyddiau cynnar yr Uwchgynadledau, cafodd pob cyfarfod Bapur Diweddaru a oedd yn rhoi manylion y cynnydd ar ystod eang o brosiectau ers y cyfarfod blaenorol. Yn yr Uwchgynhadledd ddiwethaf yn Llanelli ar 11 Chwefror, rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog wahoddiad i randdeiliaid allweddol gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwerthusiad a throsolwg byrrach a mwy strategol o fesurau'r Uwchgynadledau a beth roeddent wedi'i gyflawni.

Ar ôl hyn cyfarfu gweithgor a oedd wedi'i gynnull gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y ffordd ymlaen. Barn y rhanddeiliaid oedd bod y papurau

diweddarau rheolaidd wedi mynd yn rhy hir a manwl i gyflawni eu pwrpas gwreiddiol ac y byddai'n fuddiol cael, yn lle hynny, adolygiad strategol lefel uchel o'r prif fesurau a oedd wedi codi a oedd â chysylltiad agosach â'r Uwchgynadleddau eu hunain. Roedd y gweithgor yn teimlo hefyd y byddai'n fuddiol comisiynu astudiaeth economaidd dymor hwy, efallai gan y Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd, a fyddai'n ystyried pa mor effeithiol oedd mesurau'r Uwchgynadleddau wrth helpu i wrthweithio'r dirwasgiad. Byddai angen cwblhau astudiaeth broffesiynol o'r fath dros gyfnod hwy ond teimlai'r gweithgor ei bod yn rhy gynnar mewn llawer achos i werthuso canlyniadau'n ddigonol.

Felly, nid yw'r papur hwn yn ceisio cwmpasu'r holl weithgareddau sydd wedi'u crybwyll yn yr Uwchgynadleddau a'u cynnwys yn y Papurau Diweddarau. Yn hytrach, mae'n ceisio ymdrin â'r prif weithgareddau a gododd yn uniongyrchol o'r Uwchgynadleddau eu hunain. Mae dolennau at ffynonellau gwybodaeth manylach wedi'u cynnwys lle bynnag yr oedd modd.

Prif Weithgareddau

a) Cydweithio â Llywodraeth y DU

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Bydd Gweinidogion a swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU i weithredu mesurau ledled y DU, yn ogystal â pharhau â thrafodaethau â'u cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Beth wnaethom

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi bod yn bresennol ym mhob un o'r Uwchgynadleddau hyd yn hyn ac, ym mhob Uwchgynhadledd, mae wedi briffio'r cyfarfod ar ddatblygiadau ar lefel y DU. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cael cyfle hefyd i wrando yn y fan a'r lle ar farn y rhai a oedd yn bresennol am faterion sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU ac felly mae wedi bod mewn lle da i gymryd rhan mewn trafodaethau.

b) Sgiliau a Hyfforddiant

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Byddwn yn ceisio cynorthwyo busnesau ac unigolion sy'n wynebu'r bygythiad o ddiswyddo.

Byddwn yn ehangu'r cymorth sydd ar gael drwy ein prif raglenni.

Beth wnaethom

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau i weithredu rhaglenni i helpu'r di-waith a'r rheini sydd mewn perygl o ddod yn ddi-waith. Mae Cyfarwyddwr Cymru'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dod i'r Uwchgynadleddau Economaidd yn rheolaidd.

ProAct - Mae [ProAct](#), sy'n unigryw i Gymru, yn darparu hyd at £2,000 y gweithiwr ar gyfer hyfforddiant a chymhorthdal cyflog o £2,000 ar ben hynny i fusnesau sy'n gweithio oriau byr. Cyflwynwyd y cynllun, sy'n cael ei ariannu gan yr ESF, yn Ionawr 2009 am 15 mis, ac mae wedi'i ymestyn hyd ddiwedd Mehefin 2010. Erbyn diwedd Ebrill, roedd bron 10,000 o weithwyr mewn 218 o fusnesau wedi cael cymorth gan ProAct.

Addysg a Dysgu – Roedd 82% o rai 16 mlwydd oed wedi aros ymlaen mewn addysg yn y chweched dosbarth ac mewn colegau addysg bellach ym Medi 2009. Roedd hyn yn dilyn cyllido ychwanegol o £8 miliwn ar gyfer oddeutu 2,500 o leodd ychwanegol. Mae'r gyfradd 'aros ymlaen' yn 3% yn uwch nag yn 2008. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu yn y flwyddyn academaidd i ddod fel y bydd llai o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb ragolygon am waith.

Yn ogystal â hyn, roedd mwy o bobl ifanc yn gallu mynd ymlaen i addysg Brifysgol. Er na fydd ffigurau swyddogol (HESA) ar gyfer cofrestru myfyrwyr addysg uwch yn 2009/10 ar gael tan Ionawr 2011, mae ffigurau UCAS ar gyfer nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer mynediad yn 2009 yn rhoi arwydd o gyfeiriad y tueddiadau. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod 12% yn fwy o ymgeiswyr wedi'u derbyn i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2009 nag yn y flwyddyn flaenorol, tra oedd y cynnydd cymaradwy yn Lloegr yn 5%. Roedd cynnydd o 11% yn nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a dderbyniwyd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Cafodd 71% o'r ymgeiswyr llwyddiannus sy'n hanu o Gymru eu derbyn i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, 1 y cant yn uwch nag yn 2008 a 19 y cant yn uwch nag yn 1997.

Prentisiaethau - Cyflwynwyd [Llwybrau at Brentisiaethau](#) ym Medi 2009 i gwrdd â'r galw gan bobl ifanc a oedd am gael prentisiaeth ond a oedd yn methu â dod o hyd i gyflogwr. Mae 1,736 wedi elwa o hyfforddiant prentisiaeth mewn colegau. Mae mwy na 400 o gyflogwyr yn darparu lleoliadau gwaith o ansawdd da. Rhoddir blaenoriaeth i ddod o hyd i gyflogwr i'r bobl ifanc hyn er mwyn parhau â'u prentisiaeth yr haf hwn. Bydd Llwybrau at Brentisiaethau yn parhau ar sail debyg ym Medi 2010. Anogir colegau i addasu rhaglen 2010 / 11 i fodloni anghenion diwydiant lleol a gofynion cyflogaeth.

Y Rhaglen Recriwtiaid Newydd - a roddai gymhelliad cyflog i gyflogwyr i dderbyn prentisiaeth person ifanc. Mae amodau'r farchnad lafur wedi lleihau'r galw ond mae 303 o gyflogwyr wedi gwneud cais am gymorth hyd at ddiwedd

Mawrth. Bydd y rhaglen yn parhau drwy gydol 2010 a 2011. [Y Rhaglen Recriwtiaid Newydd](#)

Pobl Ifanc a Gwaith – Mae'r ddarpariaeth [Adeiladu Sgiliau](#) a ariannir gan yr ESF wedi'i heangu i roi hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl ifanc (ac oedolion) i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd er mwyn dychwelyd i'r gwaith. Mae ffigurau cymharol ar gyfer niferoedd sy'n cymryd rhan yn Adeiladu Sgiliau rhwng 1 Awst a 18 Mawrth 2008 / 09 a 2009 / 10 yn dangos bod 1982 yn fwy wedi cymryd rhan yn 8 mis cyntaf blwyddyn y contract.

Gwarant i Bobl Ifanc – sydd, dan arweiniad yr [Adran Gwaith a Phensiynau](#) a chyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, yn darparu gwaith a hyfforddiant i rai 18 - 24 blwydd oed sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na chwe mis. Mae 28 o brosiectau wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn yng Nghymru dan Gronfa Swyddi'r Dyfodol. Cyfanswm y swyddi a grëwyd bellach – yn cynnwys estyniadau amodol o geisiadau cynnar – yw tua 10,600 a gallent ddod â chyfanswm o fwy na £60 miliwn o gyllid i Gymru. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i gynnal yr elfennau hyfforddiant yn Gwarant i Bobl Ifanc yn 2010 – 11.

Go Wales - Ers Ionawr 2009, mae'r cynllun hwn, a ariannir gan yr ESF, wedi rhoi cymorth ar gyfer 1423 o leoliadau gwaith a chysiau blas i raddedigion o Gymru. [Go Wales](#)

Gweithwyr a Ddiswyddwyd a Rhai Di-waith - Mae mwy na 15,000 wedi cymryd rhan yn [ReAct](#). Roedd darpariaeth i gynorthwyo 2,577 o bobl y flwyddyn pan gyflwynwyd ReAct. Cafwyd cynnydd o 489% yn y cymorth yn ystod y dirwasgiad o ganlyniad i fuddsoddi ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad ar ben yr hyn a gynlluniwyd a £24 miliwn o'r ESF. Mae'r galw gan gyflogwyr am y cymhorthdal recriwtio wedi cyrraedd y nifer a ragwelwyd ac mae gwerthusiad mewnol o gyflawniadau rhwng Hydref 2008 a Chwefror 2010 yn dangos bod 72.8% o'r rhai a gymerodd ran wedi dod o hyd i waith newydd o ganlyniad. Mae ReAct wedi gweithio ar y cyd â Thîm Ymateb Cyflym i Ddiswyddo Canolfan Byd Gwaith, TUC Cymru a Gyrfa Cymru.

Rhoddwyd hwb i adnoddau Gyrfa Cymru. Cafwyd enghraifft o hyn yng ngwaith Corus-Llanwern yn Ebrill 2009 lle y cydweithiodd Canolfan Byd Gwaith ag A4E a phartneriaid eraill i gyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth i weithwyr a oedd mewn perygl o gael eu diswyddo. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ac o ganlyniad cafodd mwy na 300 o weithwyr gymorth i ddechrau mewn gwaith arall, hunangyflogaeth a chyfleoedd dysgu i'r dyfodol ac i ymddeol.

Mae cymhorthdal recriwtio'r Adran Gwaith a Phensiynau, 'Croeso Euraid', i rai sydd wedi bod yn ddi-waith am chwe mis neu fwy, wedi'i ategu drwy gynnig o hyfforddiant sydd ar gael drwy Adeiladu Sgiliau.

Sgiliau a Busnes – Mae darparu cymorth ymarferol i fusnesau i ddod drwy'r dirwasgiad wedi bod yn brif flaenoriaeth. Mae 'Sgiliau Twf Cymru' wedi'i gyflwyno i ddarparu cymorth ar gyfer hyfforddiant yn gyflymach i fusnesau sy'n dod allan o'r dirwasgiad. Bydd y prosiectau cyntaf yn dechrau ym mis Mai.

Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu wedi ehangu, a'r gyfradd ymyrraeth grantiau i fusnesau bach a chanolig eu maint wedi codi o 50% i 70%, fel bod busnesau'n gallu cael mwy o gymorth at hyfforddiant. Ers Ebrill 2009 mae 2,150 o fusnesau wedi ymuno â'r rhaglen (42 yr wythnos) gan ddarparu ar gyfer 93,197 o gyflogwyr. Mae gwasanaethau cymorth eraill ar gyfer sgiliau busnes hefyd wedi'u heangu a'u hystyngi, fel Addewid Sgiliau Sylfaenol y Cyflogwr a Gweithdai Arweinyddiaeth a Rheoli.

Cyflwynwyd rhaglenni newydd wedi'u targedu, gyda chymorth yr ESF, sy'n cwmpasu sgiliau sector, datblygu, arweinyddiaeth a rheoli, Graddau Sylfaen ac ymchwil gan raddedigion. Mae CCAUC wedi rhoi adnoddau ychwanegol i brifysgolion i ymestyn eu gwasanaethau i fusnesau yng Nghymru.

Partneriaethau Cyflogaeth Lleol – Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Caerdydd, Canolfan Byd Gwaith, John Lewis ac A4E wedi helpu mwy na 100 i gael gwaith drwy'r dull Partneriaeth Cyflogaeth Lleol lle mae

cyflogwyr yn rhoi cymorth i gwsmeriaid â blaenoriaeth Canolfan Byd Gwaith i gael gwaith. Rhai enghreifftiau eraill yw cangen o Debenhams yn y gogledd a gyflogodd 45 o gwsmeriaid â blaenoriaeth a Tesco yn y Drenewydd a gyflogodd 80 o gwsmeriaid â blaenoriaeth. Ers Medi 2009 mae 10,317 o bobl wedi dod o hyd i waith gyda chyflogwyr drwy drefniadau Partneriaeth Cyflogaeth Leol.

Cymorth i'r rhai sydd newydd ddod yn ddi-waith – Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cynnig mynediad i sesiwn gwybodaeth grŵp un awr o hyd i'r rheini sydd ag angen mwy o gymorth sydd newydd ddod yn ddi-waith. Yn ogystal â hynny mae sesiynau wedi'u darparu gan y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth a'i aelodau masnachol, sy'n cynnig sesiynau hyfforddi i'r cwsmeriaid hynny sydd â chefnidir fel gweithwyr proffesiynol a swyddogion gweithredol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi trefnu diwrnodau ymwybyddiaeth penodol yn Llanelli a Chaerdydd lle mae mwy na 150 o bobl wedi elwa o sesiynau cynghori o ansawdd da, yn cynnwys y rheini a gyflwynwyd gan Seicolegwyr Gwaith Canolfan Byd Gwaith.

c) Cyllido gan Fanciau

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Bydd Gweinidogion Cymru'n creu fforwm penodol i sector bancio a chyllid Cymru i weld pa gyngor a chymorth ychwanegol y gellir eu rhoi i fusnesau Cymru.

Beth wnaethom

Rydym wedi cyflwyno menter i helpu busnesau i gael mynediad at gymorth a chynghor ariannol. Drwy gydweithio â gweithwyr cyfrifyddiaeth proffesiynol, rydym wedi cytuno ar gymorth i fusnesau sydd ag angen cymorth proffesiynol i fireinio cynllun busnes neu ddatblygu diagnosis ariannol. Caiff hyn ei

ddarparu drwy'r Gronfa Fuddsoddi Sengl. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn [Cronfa Fuddsoddi Sengl](#)

Ar y cyd â banciau, cynhyrchodd Llywodraeth y Cynulliad "A Guide to Accessing Bank Finance". Mae'r arweiniad, sydd wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, busnesau presennol a rhai newydd, yn cynnig gwybodaeth ymarferol a chynghor i roi'r cyfle gorau i lwyddo wrth wneud cais am gyllid i fanciau. Mae crynodeb hefyd yn yr arweiniad o'r meini prawf y mae banciau'n eu cymhwyso wrth ystyried ceisiadau am gyllid ac mae hyn yn enghraifft ddechreuol o gydweithredu â'r banciau. Mae cyfres o 24 o weithdai wedi'u trefnu ledled Cymru ar gyfer 2010 i ategu'r "Guide to Accessing Bank Finance" er mwyn cyflwyno'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer cael cyllid busnes i entrepreneuriaid a pherchnogion busnesau, yr opsiynau o ran ariannu sydd ar gael i gwmnïau yng Nghymru, a rhoi iddynt y wybodaeth elfennol ar gyfer cysylltu'n llwyddiannus â banciau yn ogystal â chyrff cyllid eraill. ([FS4B](#))

Mynegwyd pryderon gan randdeiliaid mewn nifer o Uwchgynadleddau am lefelau'r cyllido yr oedd banciau'n eu cynnig i fusnesau yng Nghymru ac am y sectorau lle'r oeddent yn barod i fenthycu. O ganlyniad i'r pryderon hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfres o gyflwyniadau gyda nifer o fanciau a'u gwahodd hefyd i fod yn bresennol yn yr uwchgynadleddau i drafod y mater. Comisiynwyd yr Athro Colyn Gardner gan yr uwchgynhadledd i edrych yn fanylach ar y sefyllfa ac adroddodd yn ôl ar ddau achlysur. Roedd y trafodaethau yn yr uwchgynhadledd yn gymorth i'r ddwy ochr ddeall safbwynt ei gilydd ac yn gyfle i'r banciau egluro cyfyngiadau yn ogystal â chaniatáu i fusnesau wyntyllu eu pryderon. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i drafod â'r sector Bancio ynghylch ffyrdd o helpu busnesau i gael mynediad at gyllid.

ch) Cymorth i Fusnesau

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Byddwn yn adolygu ein cymorth i fusnesau i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r amgylchedd economaidd cyfnewidiol.

Beth wnaethom

Yn ogystal â'r mesurau a ddisgrifiwyd yn yr adran ar y sector Bancio a Chyllid:

Dod Drwyddi - Cynhaliwyd seminarau rhanbarthol dan yr enw 'Dod Drwyddi' yn ystod mis Mawrth 2009 i gynnig cyngor a gwybodaeth i fusnesau yng Nghymru am y cymorth sydd ar gael iddynt yn ystod y dirywiad economaidd. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys siaradwyr arbenigol, sesiynau holi ac ateb a gwybodaeth am gymorth penodol. Cynhaliwyd ffeiriau gwybodaeth i gyd-redeg â'r rhain lle'r oedd cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau un-i-un gyda rheolwyr perthynas Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ac APADGOS. Paratowyd casgliad o wybodaeth am y cymorth a oedd ar gael ar gyfer y seminarau a hynny'n cynnwys taflenni ffeithiau ar feysydd cymorth allweddol, gan gynnwys arloesi, dechrau busnes a'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Hyd yn hyn mae 13,838 o daflenni ffeithiau 'Dod Drwyddi' wedi'u lawrlwytho o [wefan FS4B](#).

Rhwydweithiau Menter – Bydd y prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu gan yr ERDF, yn cynnwys buddsoddiad o £25 miliwn i hybu cadwyni cyflenwi strategol mewn sectorau diwydiant allweddol gan sicrhau bod busnesau ac economi Cymru'n elwa o'r cyfleoedd a geir o ganlyniad i fuddsoddiadau ar raddfa fawr fel datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear a datblygu ffermydd gwynt ar y môr. Mae cymorth ar gael hefyd i fusnesau bach a chanolig eu maint, ar eu pen eu hunain ac mewn grwpiau, i wneud cais ar y cyd am gontractau sector cyhoeddus. Un arf allweddol sy'n cael ei wella a'i ddatblygu yw [GwerthwchiGymru](#) a fydd yn gwella'r cymorth i fusnesau yng Nghymru a'r rhaglen caffael electronig arobryn cyfnewidcymru a fydd yn gwella effeithlonrwydd, yn cynyddu cynhyrchiant, yn ysgogi mwy o gydweithredu ac yn lleihau costau. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth hefyd i gyflwyno [Gweithdai Cael Gafael ar Gyllid](#), sydd wedi'u seilio ar y llyfryn 'A Guide to Accessing

Bank Finance' a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar y cyd â'r banciau. Hyd yn hyn mae prosiect y Rhwydweithiau Menter wedi cynorthwyo 1531 o fusnesau, wedi creu 273 o swyddi ac wedi helpu i ddiogelu 746 o swyddi.

Cymorth Arloesi i Fusnesau – Cynhaliwyd pum sioe deithiol [Arloesi ac E-Fusnes](#) mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru yn Chwefror a Mawrth 2010 i helpu i sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o'r ystod eang o wasanaethau cymorth a chynghori sydd ar gael gan dimau Technoleg ac Arloesi Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Daeth niferoedd da i'r sioeau teithiol ac roedd mwy na 75% o'r 550 o gynrychiolwyr o'r sector preifat. Yn ystod y flwyddyn hyd yma mae'r tîm wedi delio â mwy na 2080 o ymholiadau technegol gan fusnesau ac unigolion. Mae 248 wedi elwa o adolygiadau manwl (Busnesau a Gynorthwywyd). Mae 195 o fusnesau / unigolion wedi cael cyngor ynghylch Eiddo Deallusol. Mae 34 o fusnesau / unigolion wedi cofnodi Eiddo Deallusol newydd o ganlyniad i'r cynllun Cymorth Arloesi i Fusnesau hwn sydd wedi'i ariannu gan yr ERDF. Cynhaliwyd 32 o ddigwyddiadau Arloesi i Fusnesau lle'r oedd mwy na 1300 yn bresennol. Mae mewnbwn technegol i geisiadau ymchwil a datblygu i'r Gronfa Fuddsoddi Sengl wedi helpu cleientiaid i gael mwy na £38.4 miliwn o gyllid grant, gan ysgogi buddsoddiad o fwy na £10.2 miliwn gan y sector preifat.

Masnach Ryngwladol - Mae mwy na 1,000 o fusnesau wedi cael cyngor a chymorth ynghylch Masnach Ryngwladol ers dechrau Ebrill 2009 a mwy na 200 wedi cymryd rhan mewn teithiau masnach tramor. Mae eraill wedi cael cymorth gan Gynghorydd Masnach Ryngwladol ac wedi cael cymorth gan ymgynghoriaeth yng Nghymru neu dramor. Mae cwmnïau o bob maint mewn amryw o sectorau ym mhob rhan o Gymru wedi elwa o gymorth.

Dywedodd bron 200 o'r cwmnïau a gafodd gymorth iddynt sicrhau busnes newydd gan gwsmeriaid mewn gwledydd tramor yn 2009/10. Mae gwerth y busnes newydd hwn, sef ychydig llai na £174 miliwn, yn debyg i'r hyn a sicrhawyd yn 2008/09. O blith y cwmnïau a ddywedodd iddynt ennill busnes newydd, mae 40 wedi sicrhau archebion o fwy nag £1 filiwn.

Cofnodwyd llwyddiannau gan fusnesau o Gymru mewn llawer o farchnadoedd drwy'r byd. Mae marchnadoedd traddodiadol UDA, yr UE a'r Dwyrain Canol yn amlwg iawn fel y byddid yn disgwyl, ond cafwyd llwyddiannau hefyd mewn marchnadoedd sydd â photensial twf uchel fel Brasil, Rwsia, India a Tsieina.

Rhyddhad Ardrethi Busnes – Yn dilyn yr Uwchgynhadledd Economaidd gyntaf, cytunodd Gweinidogion i godi mater ardrethi eiddo gwag ar lefel Llywodraeth y DU a hefyd i asesu'r goblygiadau o ran cost i rewi ardrethi busnes am gyfnod. Cyfrannodd y trafodaethau hyn at newidiadau o ran rhyddhad ardrethi busnes a gafodd eu cyhoeddi gan y Canghellor a'u mabwysiadu yng Nghymru, at weithredu cynllun gohirio ardrethi busnes a hefyd at godiadau wedyn yn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

d) Cyllido

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Cyflwyno cronfa fuddsoddi o £150 miliwn, i'w gweithredu drwy Cyllid Cymru, i ddarparu buddsoddiadau masnachol i fusnesau bach a chanolig eu maint ledled Cymru.

Beth wnaethom

Cymru yw'r rhanbarth cyntaf yn y DU ac un o'r rhai cyntaf yn Ewrop i sefydlu cronfa [JEREMIE](#) werth £150 miliwn, gyda chymorth ariannol gan yr ERDF a Banc Buddsoddi Ewrop. Fe'i lanswyd gan y Prif Weinidog yn Ebrill 2009, a buddsoddwyd cyfanswm o £24 miliwn y llynedd gan Cyllid Cymru a oedd yn cynnwys £17 miliwn mewn 119 o fuddsoddiadau o gronfa JEREMIE. Mae gweithgarwch buddsoddi presennol Cyllid Cymru a buddsoddiadau sydd yn yr arfaeth yn dod i fwy na £33 miliwn. Dechreuodd fuddsoddi o gronfa JEREMIE fis Mai diwethaf ac mae'n gweld galw cryf a chyson am fuddsoddi masnachol.

Cyllid Ewropeaidd - Cyflymwyd y neilltuo ar gyllid yr UE ac erbyn diwedd Ebrill 2010 roedd bron £1.2 biliwn o gyllid yr UE (59% o gyllid yr UE sydd ar gael) wedi'i ddyfarnu i 164 o brosiectau, gan helpu i ddarparu mwy na 33,000 o gyfleoedd i fusnesau a 480,000 o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i unigolion.

Mae'r ymrwymiad hwn yn golygu mai'r cyfanswm a fuddsoddwyd mewn prosiectau yw £2.4 biliwn, y mae 30% (£735 miliwn) ohono'n helpu busnes; £1.1 biliwn (44%) yn helpu unigolion; a 25% (£595 miliwn) yn hybu cymunedau, yr amgylchedd a thrafnidiaeth.

Gyda'i gilydd, mae prosiectau sydd wedi'u hariannu gan yr UE, gan gynnwys prosiectau pwysig fel ProAct, ReAct, Dechrau Busnes a JEREMIE, eisoes wedi helpu mwy na 106,370 o gyfranogwyr, y mae tua 10,390 ohonynt wedi'u helpu i gael gwaith a 36,115 ohonynt wedi cael cymorth i ennill cymwysterau; ac mae 3,625 o swyddi (crynswth) a 1,000 o fusnesau newydd wedi'u creu.

Yn haf 2009, mewn cyfnod pan oedd gwerth sterling yn gostwng o'i gymharu â'r Ewro a phan oedd pwysau ar ariannu cyfatebol gan y sectorau cyhoeddus a phreifat, gwnaethom lwyddo i sicrhau cynnydd yng nghyfraddau ymyrraeth rhaglenni drwy negodi â'r Comisiwn Ewropeaidd fel y cafwyd yr hyn sydd yn y bôn yn ostyngiad o £267 miliwn yn lefel yr ariannu ar y cyd neu ariannu cyfatebol sy'n ofynnol. Cytunwyd hefyd ar newidiadau mewn rhaglenni fel y gellid helpu 20,000 o bobl ddi-waith ychwanegol i gael cyflogaeth.

dd) Gwariant Cyfalaf/Seilwaith a Ddygwyd Ymlaen

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Byddwn yn dwyn cyllidebau cyfalaf ymlaen i gyflawni gwaith y gellid ei ddechrau sydd ag amseroedd arwain byr a chynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol.

Beth wnaethom

Mae'r cyllid cyfalaf sydd wedi'i ddwyn ymlaen i 2009/10 yn ymwneud â phrosiectau yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol (£29.2 miliwn)
- Tai Fforddiadwy (£28 miliwn)
- Addysg (£25 miliwn)
- Yr Economi, Trafnidiaeth ac Adfywio (£25.9 miliwn)

Mae'r rhai sydd wedi cael cyllid wedi'u hannog i gyflogi llafur lleol lle bynnag y bo modd ac mae adroddiadau i Uwchgynadleddau blaenorol wedi amlinellu'r canlyniadau mewn rhai meysydd.

Tai Fforddiadwy (£28 miliwn)

Gwariwyd £9.5 miliwn o'r £28 miliwn yn 2009-2010 ar Gynllun Achub Morgeisi Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd, ers ei ddechrau yn 2008, wedi arwain at alluogi 609 o oedolion a 319 o blant i aros yn eu cartrefi yng Nghymru.

e) Tai

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Byddwn yn rhyddhau tir ar gyfer tai fforddiadwy cyn hir gyda chyfran gyntaf o wyth safle.

Beth wnaethom

Bellach mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi'u penodi gan yr Awdurdodau Lleol ar gyfer pob un o safleoedd y gyfran gyntaf. Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn cynnal deialog manwl â'r landlordiaid hyn i hwyluso eu trosglwyddo cyn gynted ag sy'n bosibl, gan gymryd i ystyriaeth

meini prawf allanol fel cynllunio; trefniadau ariannol y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; a phrosesau cyfreithiol.

O ganlyniad i ddwyn ymlaen cyfanswm o £12 miliwn o gyfalaf i 2008-09 ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol, roedd 477 o oedolion a 253 o blant yn gallu aros yn eu cartrefi. Cafwyd 200 o unedau tai ychwanegol o ganlyniad i'r cyllid a gafwyd o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a chynorthwywyd 25 o ddatblygwyr yn y sector preifat. Cytunwyd ar raglenni ychwanegol a bydd rhaglen dair blynedd (tan 2011) yn darparu hyd at 500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ledled Cymru.

Dyfarnwyd £42 miliwn o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol 1 (£15 miliwn yn 2008/9, £16 miliwn yn 2009/10 ac £11 miliwn 2010/11) i achub ar gyfleoedd i gwrdd â'r galw cynyddol am dai ac i weithredu'n gyflym i fanteisio ar eiddo a thir newydd, gan ddod â'r budd ychwanegol o helpu i gynnal cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. O ganlyniad i gyllid yn 2008/9 cafwyd 200 o unedau tai ychwanegol a chynorthwywyd 25 o ddatblygwyr yn y sector preifat.

Dyfarnwyd £20 miliwn o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol 2 yn 2009 ar gyfer tai fforddiadwy a phecyn cymorth i'r farchnad dai. Mae'r arian hwn wedi'i ddyrannu i Awdurdodau Lleol bellach a dylai arwain at ddarparu rhwng 400 a 500 o unedau tai newydd. Rhaid gwario'r arian yn 2010-11. Mae cynlluniau tai ar ddau o'r wyth safle yn y gyfran gyntaf sydd wedi'i rhyddhau gan Lywodraeth y Cynulliad wedi'u hariannu drwy Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol 2.

f) Effeithlonrwydd Ynni

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon drwy'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd drwy FS4B.

Beth wnaethom

Yn dilyn newidiadau yn Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE o ganlyniad i Gynllun Adfer yr UE, gwnaethom lwyddo i gytuno ar newidiadau yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2007–2013 yng Nghymru i ganiatáu defnyddio hyd at £34 miliwn o gyllid yr UE i hybu gwelliannau effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn tai incwm isel.

ff) Caffael a Thaliadau

Beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

Byddwn yn cyhoeddi gwelliannau yn ein proses caffael ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, gan gynnwys taliadau cyflymach i gyflenwyr ar draws y sector cyhoeddus.

Beth wnaethom

Cynyddu cyfran y taliadau a wneir o fewn 10 niwrnod, a sicrhau bod y targed 30 niwrnod yn cael ei gyrraedd yn gyson – hyd yn hyn talodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 90.1% o'i hanfonebau o fewn deng niwrnod a hyd yn hyn mae Awdurdodau Lleol yn gwneud 56% o'u taliadau o fewn deng niwrnod a 93% o fewn 30 niwrnod. Gwnaethom adolygu'r prosesau ar gyfer gwneud taliadau i Awdurdodau Lleol er mwyn cynyddu llif arian a gwneud taliadau'n gyflymach fel bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dwyn ymlaen y taliadau Grant Cymorth Refeniw i Awdurdodau Lleol 5 diwrnod gwaith y mis.

Amlhau cyfleoedd caffael – mae porth GwerthwchiGymru wedi'i ymestyn fel y bydd y prif contractwyr llwyddiannus sy'n ennill contractau mawr yn gallu hysbysebu cyfleoedd mewn contractau i'r cyflenwyr ail a thrydedd haen – mae porth GwerthwchiGymru haen 1 wedi agor ac mae chwech o'r prif gwmnïau sy'n dal contractau wedi cofrestru ar y porth a thri hysbysiad haen 1 wedi'u

gosod yn hysbysebu cyfleoedd mewn contractau i'w cyflenwyr ail a thrydedd haen.

Gwneud Caffael yn Fwy Eglur a Chyson ar draws y Sector Cyhoeddus –

Rydym wedi darparu ar gyfer mwy o hyfforddiant i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ynghylch manteision caffael sy'n ystyriol o fusnesau bach a chanolig eu maint a buddion cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae Gwerth Cymru yn adolygu cysondeb rhaglen hyfforddi cyfnewidcymru â hyfforddiant a rhaglen datblygu pobl Gwerth Cymru i sicrhau cysondeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr ymarferwyr caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael eu hachredu drwy raglen carfan CIPS Gwerth Cymru.

Cyflenwi cynllun peilot Masnachu ac E-dalu i Gyngorau Tref a

Chymuned drwy Un Llais Cymru – Dechreuodd ail gyfnod treialu'r system gwybodaeth fasnachu ar-lein (OTIS) ar 2 Mai a disgwylir cael adroddiad cadarnhaol cyn hir. Mae goblygiadau masnachol yn dal i gael eu trafod.

Adolygu sut y byddai cyflymu arferion caffael cynaliadwy ymhellach ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yn dwyn ymlaen buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pellach

– mae'r Fframwaith Ffatrioedd a Busnesau a Gynorthwyr unigryw i Gymru'n unig wedi dechrau gweithredu. Yn ogystal â hynny, mae arweiniad diwygiedig newydd ar gaffael Buddion Cymunedol wedi'i gyhoeddi ac rydym wedi darparu cyrsiau i'w roi ar waith sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r templed Asesiad Risg Cynaliadwy a ddefnyddir yn eang bellach yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mewn Awdurdodau Lleol.

Y Camau Nesaf

Ar gyfer y dyfodol rydym yn gobeithio datblygu ymhellach ein gwerthusiad o'r mesurau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r Uwchgynhadledd fel yr awgrymwyd uchod yn y papur. Bydd yr astudiaeth broffesiynol hon, os cytunir

arni, yn cael ei chwblhau dros gyfnod hwy a rhoddir adroddiad ar y canlyniadau i'r partneriaid cymdeithasol yn y Cyngor Partneriaeth Busnes.

Cysylltiadau Defnyddiol

ProAct

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/foremployers/proact/?lang=en>

ReAct

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learners/worklearning/gettingbacktowork/redundancyaction/?lang=en>

Llwybrau at Brentisiaethau

<http://wales.gov.uk/publications/accessinfo/drnewhomepage/educationdrs2/educationdrs2009/feiapprenticeships/?lang=en>

Y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc

<http://www.ccwales.org.uk/GetDocument.aspx?DatabaseID=2&DocID=76622>

Adeiladu Sgiliau

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learners/worklearning/gettingbacktowork/?lang=en#named1>

The Young Persons Guide

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learners/worklearning/gettingbacktowork/?lang=en#named1>

Go Wales

<http://www.gowales.co.uk/cy>

Cronfa Fuddsoddi Sengl

<http://fs4b.wales.gov.uk/bdotg/action/detail?site=230&itemId=5001457744&type=RESOURCES>

FS4B

<http://fs4b.wales.gov.uk:80/bdotg/action/home?site=230&lang=cy>

GwerthwchiGymru

<https://www.sell2wales.co.uk/>

Gweithdai Cael Gafael ar Gyllid

<http://ms.fs4b.wales.gov.uk/publications/campaigns/ABF/Access-home3-cy-microsite.html>

Arloesi ac E-Fusnes

<https://www.welshevents.co.uk/event/innovationebusinessforwales2010>

JEREMIE

<http://www.eif.europa.eu/jeremie/>

cyfnewidcymru

<http://www.xchangewales.co.uk/>